**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYNLLUN RHEOLI SAFLE TREFTADAETH Y BYD TRAPHONT DDŴR A CHAMLAS PONTCYSYLLTE | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte 2019-2029 er mwyn galluogi Cyngor Sir Ddinbych, fel un o bartneriaid Bwrdd Strategol Safle Treftadaeth y Byd i gymeradwyo ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU.* |
| **6** | NEWIDIADAU I GYFRIFIAD GWYLIAU BLYNYDDOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol -*<br><br>*(a) dylid cofnodi hawl pob gweithiwr i wyliau blynyddol mewn oriau;*<br><br>*(b) darparu cyfrifiad pro rata o hawl pob gweithiwr rhan-amser i Wyliau Banc ar sail eu horiau gwaith dan gontract, sy'n unol â'r hawl statudol, a*<br><br>*(c) chael gwared ar y cyfyngiad o gario 5 diwrnod (37 awr) yn unig o wyliau drosodd, a chaniatáu i 10 diwrnod (74 awr) gael eu cario drosodd yn awtomatig.* |
| **7** | ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cadarnhau cynnwys yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2018-19.* |
| **8** | CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor gefnogi mabwysiadu'r Erthyglau Cymdeithas drafft a Chytundeb Aelodau ar gyfer y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig drwy Warant nid er elw fel yr amlinellir yn atodiadau'r adroddiad hwn.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN | |
| **9** | STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019-23 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019/23 (Atodiad 1 yn yr adroddiad) a nodi ei gyhoeddiad ar wefan y Cyngor.* |
| **10** | ADRODDIAD ARIANNOL (ALLDRO ARIANNOL 2018/19) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw derfynol ar gyfer 2018/19;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3, a*<br><br>*(c) nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.* |
| **11** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) nodi'r arbedion newydd a nodwyd o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylchedd, a*<br><br>*(c) chymeradwyo dileu'r achos Ardrethi Annomestig Cenedlaethol fel y nodir yn Atodiad 5 yn yr adroddiad.* |
| **12** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **13** | CYMERADWYO CYTUNDEB GOFAL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | YN Y CARTREF GOGLEDD CYMRU | *(a)* *yn cymeradwyo tendrau 23 o gyflenwyr ac yn gwrthod tendrau 2 gyflenwr am y rhesymau y manylir arnynt o fewn yr Adroddiad Argymhellion Dyfarnu Cytundeb Fframwaith (Atodiad 1 yn yr adroddiad), a*<br><br>*(b)* *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y Ffurflen Gomisiynu wreiddiol (Atodiad 2 yn yr adroddiad) a'r Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y tendr Gofal Cartref rhanbarthol (Atodiad 3 yn yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **14** | PENODI CONTRACTWYR AR GYFER FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW AC AILWAMPIO TAI GWAG | ***PENDERFYNWYD*** –<br><br>*(a)* *Penodi'r contractwyr fel yr argymhellir a manylir yn Nhabl 1, paragraff 3 yr adroddiad, sydd wedi cael ei werthuso yn unol â'r fethodoleg sgorio a phwysoli a fanylir o fewn y dogfennau tendro, ar gyfer Fframwaith Tai Gwag yn ôl y telerau a amlinellir o fewn yr adroddiad, ac*<br><br>*(b)* *ar gyfer Lot 1 a 2, dim ond pedwar contractwr sydd wedi cael eu dewis a chedwir yr hawl i ddefnyddio Sefydliad Llafur Uniongyrchol y Cyngor ar rai o'r gwaith unedau gwag; y bwriad yw defnyddio Sefydliad Llafur Uniongyrchol mewnol y Cyngor gyda chefnogaeth contractwyr enwebedig.* |